**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Eluned Morgan AS
Prif Weinidog Cymru

11 Chwefror 2025

Annwyl Eluned,

**Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)**

Fe gofiwch imi ysgrifennu atoch ar 21 Hydref 2024 mewn perthynas â'r Bil uchod. O fewn fy llythyr, rhoddais wybod i chi fy mod wedi penderfynu gohirio fy mhenderfyniad ynghylch a fydd angen penderfyniad ariannol tan i'r pwyllgorau sy'n ystyried egwyddorion cyffredinol a goblygiadau ariannol y Bil gael cyfle i gymryd tystiolaeth mewn perthynas â'r Bil.

Nodaf fod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi cwblhau cymryd tystiolaeth yng Nghyfnod 1, ac fod y Pwyllgor Cyllid wedi penderfynu peidio cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r Bil. Nodaf ymhellach nad yw'r pwyllgorau wedi derbyn unrhyw dystiolaeth sy'n nodi bod y Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a allai godi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Felly, rwy'n penderfynu, yn unol â Rheolau Sefydlog 26.68 i 26.74, nad oes angen penderfyniad ariannol ar gyfer y Bil.

Os bydd y Bil yn symud ymlaen i'r camau diwygio, byddwch yn ymwybodol fodd bynnag y bydd gofynion Rheol Sefydlog 26.72 yn berthnasol.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd